Dŵr Cymru
Welsh Water

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

02920 740450
dwrcymru.com

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1SN

**28 Mawrth 2024**

Annwyl Gadeirydd,

**Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ar Berfformiad Dŵr Cymru (Chwefror 2024)**

Cyhoeddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ei adroddiad ar berfformiad Dŵr Cymru ar 9 Chwefror 2024. Sylw yn y cyfryngau i'r problemau yng ngweithfeydd trin dŵr gwastraff Aberteifi, a phenderfyniadau Ofwat a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i israddio graddfa perfformiad y cwmni sbardunodd ymchwiliad y Pwyllgor.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno 12 o argymhellion i'r cwmni, Llywodraeth Cymru a CNC. Ni wnaed cais ffurfiol am unrhyw ymateb gan Ddŵr Cymru, ond mae yna rhai eitemau sy'n gofyn am weithredu. Rydyn ni'n cyflwyno'r ymateb hwn i'r Pwyllgor ar sail anffurfiol felly.

Y bwriad yw pwysleisio ein hymrwymiad i weithredu'r argymhellion sy'n ymwneud â'r cwmni, a darparu unrhyw eglurhad sydd ei angen i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i waith yn hyn o beth.

**Ymateb i'r argymhellion sy'n ymwneud â Dŵr Cymru**

***Argymhelliad 1.*** *Cyn pen chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai Dŵr Cymru adrodd nôl i'r Pwyllgor â diweddariad ar gynnydd tuag at gyflawni'r cynllun ymrwymiad i wasanaeth ar gyfer Ofwat.*

Byddwn ni'n adrodd nôl yn ôl y gofyn. Mae'r Cynllun Ymrwymiad i Wasanaeth (SCP) y gofynnodd Ofwat amdano ar gael ar ein gwefan yn y fan yma. Rydyn ni'n darparu diweddariadau chwarterol manwl ar gynnydd o ran y camau angenrheidiol ar gyfer Ofwat. Byddwn ni'n cyhoeddi crynodeb o gynnydd o ran yr SCP ddiwedd Mawrth erbyn diwedd Mai. Bydd y ffigurau blynyddol ar berfformiad ar gael ym mis Gorffennaf pan fyddwn ni'n cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol ar Berfformiad.

***Argymhelliad 2.*** *Dylai Dŵr Cymru esbonio sut y mae'n cynllunio ar gyfer pwysau'r hinsawdd yn y dyfodol er mwyn lliniaru'r risg o ddigwyddiadau llygru difrifol fel y rhai a welwyd yn ystod y cyfnod o sychder a thymheredd uchel yn 2022.*

Rydyn ni'n targedu dim digwyddiadau llygru difrifol wrth edrych tua'r dyfodol, ac yn arbennig unrhyw lygredd sy'n cael ei achosi gan fethiant ein hasedau. Mae unrhyw ddigwyddiadau llygru o'r fath yn gallu cael effaith fwy difrifol yn ystod cyfnodau o sychder pan fo lefelau'r afonydd yn is, fel y mae'r argymhelliad hwn yn awgrymu. Dyna pam ein bod ni wedi cynnwys gwariant ychwanegol yn ein cynllun ar gyfer AMP8 (2025-30) i adnewyddu neu ddisodli'r asedau dŵr

Dŵr Cymru
Welsh Water

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

02920 740450
dwrcymru.com

gwastraff, sef prif bibellau carthffosiaeth codi yn bennaf, lle mae'r risg uchaf o ddiffygion a allai achosi llygredd mewn ardaloedd amgylcheddol sensitif. Yn amodol ar graffu a chydsyniad Ofwat, byddwn ni'n buddsoddi £2.5 biliwn i wella'r amgylchedd rhwng 2025 a 2030.

***Argymhelliad 3.*** *Dylai Dŵr Cymru ymrwymo i bennu targed mwy ymestynnol ar gyfer lleihau digwyddiadau llygru erbyn 2030, yn hytrach na'r targed cyfredol o 24%. Dylai ymrwymo hefyd i uchelgais o ddim digwyddiadau llygru yn y cyfnod byrraf posibl, gyda thargedau'r dyfodol yn adlewyrchu unrhyw waharddiad ar weips sy'n cynnwys plastig.*

Er bod y targed o ostyngiad o 24% mewn digwyddiadau llygru i'w weld yn gymharol fach, y gwir amdani yw ei bod hi'n darged ymestynnol yng ngoleuni perfformiad cadarn y diwydiant ar y mesur hwn (ni a gofnododd y lefel isaf ond un o ran cyfanswm nifer y digwyddiadau llygru o blith holl gwmnïau dŵr Cymru a Lloegr yn 2022). Er eglurder, mae'r mesur yma o berfformiad yn cynnwys digwyddiadau llygru Categori 1, 2 a 3, ac ystyrir bod y mwyafrif llethol o'r digwyddiadau – mwy na 93% o'r digwyddiadau yn 2023 – yn rhai Categori 3 neu "lefel isel". Er ein bod ni'n derbyn yr uchelgais o ddim digwyddiadau llygru o ran egwyddor, dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol, gyda rhwydwaith o 36,000km o garthffosydd a channoedd o orsafoedd pwmpio a gweithfeydd trin, nid yw'n realistaidd disgwyl cyflawni hyn yn ymarferol. Y peth iawn i'w wneud yw ceisio sicrhau gwelliannau parhaus o ran perfformiad, lleihau effaith digwyddiadau o'r fath pan fyddant yn codi, sicrhau adrodd rhagweithiol a chywir, a sicrhau bod ein sylfaen o asedau'n addas ar gyfer yr hirdymor.

Un o'r pethau rydyn ni'n ei wneud yw gosod 20,000 o declynnau monitro yn y carthffosydd dros y pum mlynedd nesaf, a ddylai helpu i leihau digwyddiadau. Bydd angen cymorth a chefnogaeth awdurdodau lleol arnom i ddargyfeirio dŵr neu 'lif' sy'n draenio oddi ar dir a phriffyrdd o'n rhwydwaith o garthffosydd, am taw prif achos y cynnydd mewn digwyddiadau llygru yn 2023 oedd gorlwytho hydrolig ar ein rhwydwaith oherwydd llifogydd dŵr wyneb.

***Argymhelliad 4.*** *Dylai Llywodraeth Cymru geisio cyflwyno gwaharddiad ar weips sy'n cynnwys plastig cyn gynted â phosibl. Dylai adrodd nôl i'r Pwyllgor ar ddeilliannau'r ymgynghoriad ar y cyd ar waharddiad arfaethedig, ac ar yr amserlen y mae'n gweithio tuag ati i gyflwyno gwaharddiad yng Nghymru.*

Rydyn ni'n llwyr gefnogi'r argymhelliad hwn a'r mesurau i ddefnyddio a gwaredu llai o ficroblastigion. Cyhoeddodd ein Cyfarwyddwr Amgylcheddol erthygl ar Wales Online ac yn y Western Mail yn ddiweddar yn cyflwyno'r ddadl o blaid hyn. (Mae'r erthygl ar gael yma). Rydyn ni'n clirio 2,000 o garthffosydd sydd wedi blocio bob blwyddyn ar gyfartaledd, a hynny ar gost o dros £7m, a weips sydd i gyfrif am bron i chwarter o'r tagfeydd hyn.

***Argymhelliad 5.*** *Dylai Dŵr Cymru ddarparu manylion ei drefniadau llywodraethu mewnol a dangos sut maen nhw'n cael eu defnyddio i ddal gweithredwyr y cwmni i gyfrif a llywio gwelliannau mewn perfformiad. Yn benodol, dylai Dŵr Cymru esbonio rôl aelodau Glas Cymru o fewn ei strwythur llywodraethu, ymateb yr aelodau i berfformiad diweddar Dŵr Cymru, a'r camau y mae'r aelodau yn eu cymryd i sicrhau gwelliannau.*

Dŵr Cymru Welsh Water

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

02920 740450
dwrcymru.com

Rhoddir disgrifiad llawn o'n Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Glas Cymru (gweler y cyhoeddiad diweddaraf yma). Rydyn ni'n cydymffurfio'n llwyr â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU (2018). Mae ein Haelodau'n chwarae rôl bwysig yn absenoldeb cyfranddalwyr wrth ddal y Bwrdd i gyfrif a herio'r cwmni ar ei berfformiad. Mae ein Haelodau'n cael eu recriwtio o'r cymunedau a wasanaethwn, a'n nod yw sicrhau cynrychiolaeth effeithiol o ran profiad, arbenigedd a galluoedd o fewn ein Haelodaeth. Yn ogystal â disgwyl iddynt fod â diddordeb yn ein gweithgareddau, rydyn ni am iddynt ein herio ni'n adeiladol a dal y Bwrdd i gyfrif. Rydyn ni'n recriwtio Aelodau trwy broses sy'n cael ei hysbysebu'n agored, a Syr Paul Silk yw cadeirydd annibynnol cyfredol ein Panel Dethol Aelodau. Mae gennym 68 o Aelodau sy'n cynnwys pobl o'r llu o ardaloedd daearyddol a wasanaethwn, ac o amrywiaeth eang o gefndiroedd, sy'n cwmpasu profiad masnachol, llywodraethu corfforaethol, amgylcheddol, llywodraeth leol a'r trydydd sector, ymhlith eraill.

Cynhelir dau gyfarfod llawn y flwyddyn, y mae un ohonynt yn digwydd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Glas Cymru, a chynhelir cyfarfodydd rhanbarthol pellach. Mae perfformiad yn eitem flaenllaw ar agenda'r holl gyfarfodydd hyn. Mae gan nifer o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol brofiad o gwmnïau FTSE ac maent wedi dweud bod gwaith craffu'r Aelodau'n debyg neu hyd yn oed yn fwy manwl na'r hyn a welir mewn rhai cwmnïau rhestredig.

Mae'r aelodau'n pleidleisio ar adnewyddu penodiadau Cyfarwyddwyr unigol i'r Bwrdd yn flynyddol, ac ar faterion llywodraethu eraill, fel penodi ein harchwilwyr allanol a'n polisi ar gydnabyddiaeth ariannol o weithredwyr, yn gyfnodol.

Mae ein Haelodau wedi bod yn agored iawn wrth leisio eu pryderon am yr adroddiadau diweddar ar berfformiad y cwmni. Er taw cyfrifoldeb y cwmni yn hytrach na'r Aelodau yw sicrhau gwelliannau, maen nhw'n disgwyl i'r cwmni gyflawni gwelliannau'n gyflym ac adrodd yn fanwl ar gynnydd ym mhob cyfarfod o'r Aelodau. Mae gennym hanes hir o fod yn hollol agored a thryloyw gyda'n Haelodau ar yr holl faterion o bwys sy'n effeithio ar y busnes. Yn ogystal â pherfformiad, mae hyn yn cynnwys materion sy'n gysylltiedig â llywodraethu a'n strategaeth hirdymor. Rydyn ni'n cymryd safbwyntiau'r Aelodau i ystyriaeth hefyd yn nhermau ein cylch cynllunio rheoliadol, ac mae eu safbwyntiau a'u mewnbwn yn cyfrannu at ein proses ffurfiol o adolygu prisiau, a'r diweddaraf o'r rhain oedd ein cais 'PR24'. Mae'r Aelodau'n cael eu briffio rhwng cyfarfodydd hefyd ar y materion allweddol sy'n codi sy'n effeithio ar y cwmni neu'r diwydiant ar led.

***Argymhelliad 7.*** *Dylai Dŵr Cymru ymrwymo i welliannau blwyddyn ar ôl blwyddyn ar alinio'r 80% cyfredol o dâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad a ddyfernir i weithredwyr y cwmni â'r perfformiad cyffredinol a ddarperir ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd. Dylai ymrwymo hefyd i uchelgais i gyflawni aliniad o 100% o fewn y cyfnod byrraf posibl.*

Mae'n debyg bod yna gamddealltwriaeth yn y fan yma o ran natur y mesur sy'n ymwneud ag 'alinio tâl yn seiliedig ar berfformiad â'r perfformiad cyffredinol a ddarperir ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd'. Nid yw adroddiad Ofwat ar dâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar gyfer gweithredwyr (sydd ar gael yma) yn argymell 100% o 'aliniad' o ran y mesurau sy'n pennu tâl yn gysylltiedig â pherfformiad â pherfformiad go iawn. Mae hynny am fod yna amcanion pwysig a

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

02920 740450
dwrcymru.com

hollol gyfiawn eraill sy'n haeddu cael eu cynnwys yn yr hyn sy'n llywio tâl yn seiliedig ar berfformiad. Yn ein hachos ni, mae'r rhain yn cynnwys statws credyd y cwmni (sy'n helpu i gadw biliau i lawr yn y pen draw), a lefel yr amrywiaeth sydd yna ar Fwrdd y cwmni.

Mae Ofwat yn dweud y "clustnodwyd 60% o aliniad â chyflawniad ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd fel arfer dda ymysg y cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio yn PR19". Roedd lefel aliniad Dŵr Cymru dros 80%.

Am y rhesymau a bennwyd uchod, nid ydym yn ymrwymo i uchelgais i gyflawni 100% o aliniad am y byddai hynny'n gofyn am gael gwared ar fesurau rydym ni'n eu gweld yn bwysig o blith y rhai a ddefnyddir i lywio tâl yn seiliedig ar berfformiad.

***Argymhelliad 8.*** *Dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol, gan gynnwys Dŵr Cymru, glustnodi ffyrdd o gyfleu dull Cymru o fynd i'r afael â rhyddhau carthion trwy orlifoedd storm yn effeithiol er mwyn gwella dealltwriaeth y cyhoedd am y dull yma o weithredu.*

Rydyn ni'n llwyr gefnogi hyn. Fe fydd hi'n hanfodol dod â'r cyhoedd gyda ni yn ein hymdrechion i leihau effeithiau ecolegol gorlifoedd storm, yn ogystal â thaclo holl achosion iechyd gwael yr afonydd. Bydd taclo'r gorlifoedd storm sy'n achosi difrod ecolegol yn gyntaf, yn hytrach na chanolbwyntio ar nifer y digwyddiadau rhyddhau fel sy'n digwydd yn Lloegr, yn ein galluogi ni i gyd i fynd ymhellach i wella ansawdd dŵr afonol ac arfordirol, a hynny'n gynt. Mae hi'n broblem gymhleth lle gall dulliau gor-syml ond llawn bwriadau da wneud mwy o niwed na lles. Bydd angen i randdeiliaid gydweithio i roi strategaethau effeithiol ar waith a chyfleu ein dull o weithredu i'r cyhoedd ar led. Mae hyn yn cynnwys parhau i weithio gyda *Thasglu Gwella Ansawdd Afonydd* Cymru sy'n tynnu rheoleiddwyr, y llywodraeth a'r cwmnïau dŵr ynghyd er mwyn *gwella ansawdd dŵr afonol*.

***Argymhelliad 9.*** *Dylai Dŵr Cymru gyhoeddi manylion ei raglen waith i daclo rhyddhau carthion o orlifoedd storm yn y tymor byr, canolig a hir. Dylai hyn gynnwys targedau uchelgeisiol i gyflawni asesiadau ecolegol a dileu difrod amgylcheddol o orlifoedd storm a ganiateir ac na chaniateir. Dylai Dŵr Cymru ymrwymo i gyhoeddi adroddiadau ar gynnydd tuag at gyflawni hyn yn gyfnodol.*

Cyhoeddwyd ein cynlluniau manwl iawn i daclo rhyddhau carthion trwy orlifoedd storm yn ein Cynllun Busnes PR24 a gyflwynwyd i Ofwat yn Hydref 2023, ac mae'r rhain ar gael ar lein yma. Roedd hyn yn cynnwys ein Strategaeth Gorlifoedd Storm.

Mae'r cynllun yn cynnwys targedau uchelgeisiol i gyflawni asesiadau ecolegol, gan ganolbwyntio ar y gorlifoedd hynny a allai fod yn achosi'r difrod amgylcheddol mwyaf. Fel y mae'r cwmni'n ymwybodol, mae ein strategaeth yn dilyn polisi Llywodraeth Cymru a CNC i leihau difrod ecolegol yn hytrach na chyflawni'r gostyngiad mwyaf posibl yn nifer y gollyngiadau yn unig.

Rydyn ni wedi ymrwymo o hyd i uwchraddio pob Gorlif Storm sy'n achosi difrod amgylcheddol erbyn 2040, gyda'r 100 cyntaf â'r flaenoriaeth uchaf yn cael eu cyflawni erbyn 2030, yn amodol ar gydsyniad Ofwat i'n cynllun. Mae 2,300 o Orlifoedd Storm yng Nghymru, a gyda sylfaen cymharol fach o gwsmeriaid, fforddiadwyedd biliau fydd yn llywio cyflymdra'r gweithrediad i bob pwrpas. Fodd bynnag, rydyn ni'n hyderus y byddwn ni'n cyflawni gwelliannau go iawn ac arwyddocaol i ansawdd dŵr afonol a fydd yn beth buddiol i amgylchedd dyfrol Cymru.

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

02920 740450
dwrcymru.com

Byddwn ni'n adrodd ar gynnydd yn ein Hadroddiad Blynyddol ar Berfformiad ac yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Glas Cymru.

Yn olaf, hwyrach eich bod wedi gweld bod Ofwat wedi cyhoeddi canfyddiadau ei adroddiad ar ôl i ni eu hysbysu fis Mai diwethaf am ein bwriad i ailddatgan data ar berfformiad 2020-2022 ar ollyngiadau a defnydd fesul pen (h.y. faint o ddŵr a ddefnyddiwyd fesul cwsmer) yn ddiweddar. Roedd hyn ar ôl i'n proses sicrwydd diwedd blwyddyn glustnodi nad oedd elfennau o'r cyfrifiadau a gyflwynwyd yn cydymffurfio â'r gofynion rheoliadol. Ar ôl cynnig pecyn o £30m i wneud iawn i gwsmeriaid, a oedd yn cynnwys ad-daliad o £10 i bob cwsmer (a wnaed yn 2023), fe gynigion ni gwerth £59 miliwn o wariant i wella perfformiad o ran gollyngiadau a defnydd fesul pen hefyd. Mae Ofwat wedi derbyn y cynigion hyn ac wedi codi dirwy enwol o £1 arnom. Rydyn ni'n gwybod y bydd cyflawni'r gostyngiad cynlluniedig mewn gollyngiadau'n her, ond gallaf sicrhau Aelodau'r Pwyllgor ein bod wedi ymrwymo i gynnydd sylweddol mewn buddsoddiad yn y maes yma a'n bod wedi cryfhau'r timau gweithredol perthnasol i'n helpu ni i gyflawni ein targedau.

Gobeithio ein bod ni wedi ateb yr argymhellion perthnasol a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor, a chroeso i chi gysylltu â mi os oes angen rhagor o fanylion arnoch.

Yn gywir,



Prif Weithredwr
Dŵr Cymru Welsh Water